

COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS FERCHER, 12^{FED} MAI 2021 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd C. Hughes (Cadeirydd)
Cynghorwyr H. Fleet, D. Howcroft, A. Khan, P. Richards, Dr K. Swindon

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol
Ms L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

371/20 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr M.A. Jones ag H. Meredith..

372/20 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. N i ddatganwyd dim.:

373/20 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion:

(a) Cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24^{ain} Mawrth 2021.

374/20 Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol:

(a) Cofnodion 250/20(d) – Polisi ar Logi Ystafelloedd: Cyflwynodd y Clerc geiriad drafft ar gyfer y polisi o logi ystafelloedd yn Neuadd y Dref i gael ei ystyried.

Penderfynwyd argymhell bod y polisi ar gyfer llogi ystafelloedd yn cael ei fabwysiadu.

375/20 Cyllid:

a) Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnodau o 1.3.2021 i 31.3.2021 ag o 1.4.2021 i 30.4.2021 sy'n ymddangos yn Rhestr 'A' sydd gyda hwn.

b) Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc a'r Cadeirydd gwirio a dilysu datganiadau cysoni'r banc fel yr oedd ar 31/3/2021.

c) Penderfynwyd derbyn y datganiadau drafft ar incwm a gwariant fel yr oedd ar 31.3.21 (cyn unrhyw gyweiriadau diwedd y flwyddyn) fel mae'n ymddangos yn Rhestr 'B' sydd gyda hwn.

Fe nodwyd gan yr Aelodau bod y Clerc ar hyn o bryd yn dod a chyfrifon diwedd y flwyddyn i ben, cyn yr archwiliad mewnol ar ddiwedd y mis.

ch) Fe nodwyd yr ohebiaeth a ganlyn oddi wrth CCLA gan yr Aelodau

- i) Adroddiad y Farchnad - Mawrth 2021
- ii) Adolygiad o'r Sector Eiddo. Ebrill 2021
- iii) Adroddiad y Farchnad - Ebrill 2021
- iv) Diweddariad LAPF.

376/20 Llywodraeth Cymru: Fe nodwyd gan yr Aelodau na dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

377/20 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):

(a) Penderfynwyd rhoi awdurdod i dalu'r cyfraniadau a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer Theatr Colwyn / Oriel Colwyn am 2021/22:

- (i) **Theatr Colwyn - £55,000**
- (ii) **Oriel Colwyn - £10,000**
- (iii) **Gwyl Ffilm Gogs (grant am ddigwyddiad) - £5,000**

(b) Cyflwynodd y Clerc, i'w ystyried, ymateb Byw yn y Bae (ynghlŷn â'r posibilrwydd o gyflwyno cais am gyllid Adnewyddu Covid DU tuag at brosiectau adnewyddu). Roedd hyn yn datgan bod y grant yn gyfle am grant cyfalaf ac felly, ni ellir ei ddefnyddio i'r amcanion hyn. Fe awgrymwyd y byddai'n bosibl wneud cais am gyllid cyfalaf tuag at yr hysbysfyrddau digidol arfaethedig oddi wrth Gronfa Trawsnewid Trefi Ll. C.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon y manylion am Gronfa Adnewyddu Covid DU ymlaen i Judy Greenwood er gwybodaeth iddi.

378/20 Neuadd y Dref:

(a) Penderfynwyd rhoi awdurdod am wariant sy'n berthnasol i offer a llafur er mwyn galluogi cynnal cyfarfodydd hybrid yn y Brif Siambr (oddeutu 6 awr o lafur ynghyd a gosod ceblau a chysylltiadau)

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod cyfarfodydd hybrid yn debygol i fod yn nodwedd barhaus yn y dyfodol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ag Etholiadau (Cymru) diweddar. Gofynnodd i'r Aelodau ystyried cymeradwyo cyllideb o hyd at £1,000 i brynu camera a fyddai'n addas ar gyfer cynadleddau, gyda lens ongl lydan awtomatig hyd at faint 15 x Zoom, er mwyn gwella paratoadau fideo o gyfarfodydd ac i allu gwella technoleg cyfarfodydd hybrid.

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc ceisio cyngor fel bo angen, ac i brynu offer camera addas er mwyn gwella ansawdd cyfarfodydd hybrid.

(b) Liff Platform Bison Bede: Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad archwiliad chwe mis mwyaf diweddar i gael ei ystyried ac fe nodwyd bod ychydig o ddifrod wedi cael ei achosi i gasin allanol y pwmp hydrolog. Cafwyd ymateb i gais am wasanaethu'r liff.

Fe nodwyd gan yr Aelodau bod y lifft oddeutu 20 mlwydd oed ac nid oedd Bison Bede yn masnachu mwyach. Trafododd yr Aelodau a oedd angen paratoi arian cyfalaf wrth gefn i fod ar gael pan fyddai angen cael lifft newydd. Cynigodd y Cynghorydd P. Richards i holi ymhellach am rywun a fyddai efallai yn gallu helpu efo'r gwasanaethu / trwsio yn y dyfodol.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ceisio amcan brisiau am lifft newydd er mwyn gweld os bydd angen am arian cyfalaf wrth gefn.

379/20 Lwfansau Ward Aelodau Lleol:

Cyflwynodd y Clerc y cynnig canlynol a dderbyniwyd am brosiect i gael ei ystyried:

- (i) Cynghorydd C. Brockley - £550 tuag at Elusen Addysgol Llandrillo.

Penderfynwyd cymeradwyo cynnig (i) i gael ei dalu.

389/20 Grantiau:

- (a) **Grantiau Bychan 2020/21:** Cyflwynodd y Clerc cais brys gan Eglwys Sure Hope am Chwarter 1 i gael ei ystyried:

Penderfynwyd cymeradwyo talu'r cais fel y manylir arno yn Rhestr 'C' sydd gyda hwn.

- (b) **Llythyrau o Ddiolch:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, y llythyrau o ddiolch a dderbyniwyd gan y canlynol a dderbyniodd grantiau:

- (i) Clwb Bowlio Min-y-Don (grant bychan)
- (ii) Cefnogi Canser MacMillan (grant bychan)
- (iii) Siop Rhoi Cyngor ar Fudd-daliadau (grant mawr – y taliad cyntaf)
- (iv) Homestart Conwy ((grant mawr – y taliad cyntaf)
- (v) Y Pentan (grant mawr)

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 p.m.

..... Cadeirydd